# DINESYDD

## Ebrill

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984

RHIF 105



# DEFFRO~MAE'N DDYDD!

Eisteddfod yr Urdd 1985.Ymhle meddech chi?.Wel,yng Nghaerdydd, wrth gwrs .Doeddech chi ddim yn gwybod?.Wel,mae hi'n bryd i bobl Caerdydd sylweddoli fod Eistedd-fod Genedlaethol yr Urdd yn dod I'r brifddinas ym 1985.Fel y gwelwch ar dudalen arall yn y rhifyn hwn cynhelir Gwyl y Cyh-oeddi ymhen chwech wythnos ond faint o weithgarwch sydd na yn y cymunedau yng Nghaerdydd?

Dosbarthwyd y ddinas yn 25 o gymunedau - pob un i gasglu swm o arian i chwyddo'r coffrau. Dim ond pump o'r cymunedau hyn sy'n weithgar ar hyn o bryd.

Peth arall ddylai godi cywilydd ar ddinasyddion Caer-dydd yw mai tlawd iawn yw cyfrif banc Eisteddfod 85 ar hyn o bry7d. Prin £14,000 sydd yn y cyfrif. Mae'r nod yn £65,000.Dim ond £20,000 fydd wedi dod i'r gronfa o'r cyfamodau.Mae na brinder mawr,felly. Mae trigolion Beth-esda a'r cylch wedi casglu mwy na phobl Caerdydd yn barod ac mae nhw bron a chyrraedd eu nod. Mae eu Heisteddfod nhw ym 1986


Mae na broblemau mewn dinasfel Caerdydd,er fod llawer mwy o bobl cefnog yma.Mae pawb ar wasgar ac mae eisiau gweithio ddwywaith mor galed yn erbyn llif y diwyliiant Seisnig.Ond mae hi hefyd yn rhy hawdd i eistedd nol a gwneud dim.Disgwyl i rywun arall ysgwyddo'r baich.

Efallai hefyd fod carfan fawr o bobl yn cael eu hesgymuno am eu bod yn methu a siarad Cym-raeg.Ond,meddech chi,mae'r Urdd ar hyd y blynyddoedd wedi hybu'r dysgwyr yn yr Eisteddfod.Ond, wele baratodau opera roc Gwyl Caerdydd ac ni estynnwyd gwaho-ddiad i ddisgyblion ysgolion di-Gymraeg Caerdydd gymryd rhan yn yr opera o gwbl.Dim ond Ysgol Glantaf ac ysgolion cyfun Cymraeg Llanhari,Rhydfelen a Chwm Rhymni gafodd wahoddiad i gymryd rhan.Ysgolion sydd ymhell y tu allan i ddalgylch Eisteddfod Caerdydd.Beth am ddysgwyr ysgolion Llanishen, Howardain,y Willows ac ati?

Mater arall sy'n peri pryder yw lleoliad yr Eisteddfod. Pan aeth y rhifyn hwn i'w wely sïon yn unig oedd ar led ac mae'n bosib ewrbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn y byddwch yn gwybod yn bendant lle bydd Eisteddfod 85. Ond y si sydd ar led yw mai yn Neuadd Dewi Sant y cynhelir Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd.

Syniad da,meddech chi - ynganol y ddinas,safon uchel,dim angen llogi papell a maes.Ond arhoswch am funud.Beth am y stondainau,y stiwdio gerdd,y theatr fach, y feithrinfa a'r llu gweithgar-eddau ymylol eraill.Oes rhaid aberthu awyrgylch a naws ar allor proffiesiynoldeb?

Mae lle i ofidio am Eisteddfod yr Urdd ym 1985.Gair i gall yw'r pwt yma o erthygl. Efallai bydd eich cydwybod chi yn pigo ar ol ei darllen.



# GOLYGYDDOL

Drama, ffars, melodrama - fe'u cawsom oll o fewn y misoedd diwethaf gan Gwmni Theatr Cymru. Ond nid ar y llwyfan yn anffodus. Bu troeon trwstan yn britho hanes diwethaf y cwmni hwn - cwmni nad yw'n arfer y gair "cenedlaethol" yn ei enw ond sydd, serch hynny, trwy arddel "Cymru" yn cymryd arno fantell cyfrifoldeb a phwysigrwydd cenedlaethol.

Gwna hynny'r cam-weinyddu yn fater o bwys i bawb ohonom. Onid yw'n bryd inni holi yn fanwl pwy yw'r bobl sy'n eistedd ar bwyllgorau rheoli ein sefydliadau cenedlaethol?

Mae lle i ofni fod cronfa o bobl "gyhoeddus" yng Nghymru, sy'n cael ei penodi a'u cyfethol i un pwyllgor ar ôl y llall. Mae lle pellach i ofni fod eu dewis i'r amryfal bwyllgorau hyn yn cael ei wneud ar sail nepotistaidd a gwleidyddol yn amlach na pheidio.

Y canlyniad yw llond gwlad o bwyllgorau yn cael ei rheoli gan bobl sy'n dwli ar bwyllgora ond na ŵyr fawr ddim, o reidrwydd, am y materion dan sylw.

Rhaid dethol yn ddoethach a mwy cyfrifol i'r dyfodol. A rhaid sicrhau cyllid digonol ac anrhydeddus i'r unig gwmni cenedlaethol sy'n gweithio yn yr iaith Gymraeg. Os yw'r Cwmni Opera yn gallu denu enwau bydenwog y byd hwnnw, nid yw'n afresymol disgwyl i'n Cwmni Theatr allu denu'r enwog a'r profiadol.

Fe gymerth flynyddoedd i ddileu creithiau'r blynyddoedd diwethaf. Ni ymddiheuriwn am ddweud ei fod yn mynd i olygu arian, ond mae hefyd yn mynd i olygu rhywbeth prinach. Mae'n mynd i olygu cael y bobl gywir wrth y llyw. Pobl sy'n gallu gweinyddu go iawn - cadw cyfrifon a sgiliau sylfaenol felly sy'n angenrheidiol i redeg unrhyw gwmni. Ond yn fwy hyd yn oed na hynny mae angen pobl sy'n caru'r theatr yn angerddol. Wedyn, efallai, y cawn yr ymroddiad a'r weledigaeth sy'n esgor ar athrylith.

Dylid cofio hefyd mai methiant ariannol pur oedd yn gyfrifol am gwymp y Cwmni ac nid methiant celfyddydol.

Gresyn i nifer o bobl byd y theatr achub ar y cyfle i ymosod ar Emily Davies, Cyfarwyddwr Artistig y cwmni. Daeth yn amlwg fod gan nifer o actorion ddiffyg ffydd ym mholisi'r Cyfarwyddwr Artistig.

Haerwyd mewn un llythyr i bapur cenedlaethol nad oedd ganddi unrhyw brofiad o'r theatr broffesiynol. Haeriad cwbwl annheg ac un cwbl amherthnasol yn yr amgylchiadau. Gan na chawn mwyach weld beth fyddai pendraw polisi Emily Davies, ofer ac annoeth beirniadu.

Yr unig beth y gellir bod yn sicr ohono oedd i Gwmni Theatr Cymru ddarparu nosweithiau llwyddiannus iawn yma yng Nghaerdydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn wyneb diffyg arian amlwg y cwmni 'roedd cael cnewyllyn ifanc sefydlog yn syniad da. Dylai rhai o'r rhai fu'n beirniadu gofio iddynt hwythau unwaith berthyn i gnewyllyn tebyg ddegawd a mwy yn ôl.

Llenni!

CALENDR

EBRILL

2il Cymdeithas Cymraeg Dinas Powys. Noson o Hwyl a Sbri.

2il Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Park am 7.30. Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies.

7fed Cymdeithas Rhieni Bro Eirwg. Gwerthiant o gefn ceir yn Ysgol Bro Eirwg 2-4pm.

9fed Cymdeithas Hanes Clwb Ifor Bach. Owen John Thomas 8pm.

9 Merched y Wawr, Festri Minny St., 'Fy Newis I', atgof mewn record a chrair.

10fed Ffair Sborion yn Salem Canton. Elw i Ysgol Feithrin Llandaf. 11amn.

12eg Merched y Wawr, cange y Garth. Gosod Basgedi blodau gyda Carys Whelan. Neuadd y pentre, Pentyrch.

19eg Clwb y Dwrlwyn. Briwsiona Clwb Rygbi Pentyrch.

30ain Cymdeithas Hanes Clwb Ifor Bach. Dr Eurwyn Wiliam 8pm.

26ain: Cymry'r Wenallt, Noson Gymdeithasol yng nghwmni Clwb Cymry Trelales. Gadael 'Y Deri' am 7 o'r gloch.

MAI


10fed Merched y Wawr y Garth Noson gymdeithasol yn Neuadd y Pentre, Pentyrch.

11: Cymry'r Wenallt, Cyfarfod Blynyddol, Tafarn y Pantmawr, Rhiwbeina - 8 o'r gloch.

11 Merched y Wawr. 'Crwydro Gwent'. Gwibdaith a swper yng nghwmni J. Gwynfor Jones.

16eg Undeb Celtaidd Cylch Caerdydd. Cyfarfod yng Nglwb Ifor Bach am 8pm.

20: Cymuned Rhiwbeina - Cymanfa Ganu yng Nghapel Beulah ym Mhentre Rhiwbeina, Arweinydd: Alun Guy.



GWISGWCH Y SYMBOL.

Er mwyn edrych eich gorau yng Ngorymdaith Fawr cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gwisgwch grys T, crys chwys neu siwmper Byrti Bws.

Gallwch archebu eich crysau a'ch siwmperi, yn ogystal â llawer iawn o nwyddau eraill yr Eisteddfod, drwy'ch ysgolion, drwy Siop Taflen yng Nghanolfan yr Urdd, drwy Siop Oriel yn Heol Siarl, drwy'r Cymunedau neu'n uniongyrchol oddi wrth pwyllgor cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod drwy ffonio Caerdydd 627897.

TŶ'R CYMRY, 11 GORDON ROAD.

Ydy, mae Tŷ'r Cymry yn dal i fynd a gyda cefnogaeth yr aelodau mae cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry yn dal i gyfarfod yno.

'Rydym wedi bod mewn bodolaeth nawr ers Tachwedd '77 pan gawsom gwahoddiad i defnyddio'r "Tŷ" am cyfarfodydd i bobl sy wedi dysgu Cymraeg ac eisiau rhywle i gwrdd ar wahan i ddosbarth Nos - a cyfle hefyd i wrando ar siaradwyr, sgwrsio a chymdeithasu.

Mae rhaid i ni ddiolch i Gymry Cymraeg sy wedi bod mor barod i ddod i rhannu amser, gwybodaeth a phrofiadau gyda'r Dysgwyr.


COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD

YR UNED YMCHWIL IEITHYDDOL GYMRAEG

Cwrs M.A./Diploma Prifysgol mewn Astudiaethau Ieithyddol Cymraeg yn dechrau Hydref 1984.
Llawn-amser (blwyddyn) a rhan-amser (2 flynedd).
Cwrs o ddiddordeb neilltuol i bobl mewn swydd (yn arbennig athrawon) a myfyrwyr gradd sy'n ymddiddori yn yr iaith o safbwynt ieithyddol, tafodieithol a chymdeithasegol.
Manylion pellach oddi wrth:
Yr Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg,
18, North Road, Caerdydd CF1 3DY.
Tel: (0222) 44211 Est. 2573.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*

TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn).

CYFAMODIR POB ELW I GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.


Rydym wedi clywed sôn am bethau mor wahanol a'r Sipsiwn, Iolo Morgannwg, a Beti Cadwaladr; wedi teithio o Batagonia i Oberamergau hyd at "Kibbutz"; wedi clywed hanes y Gyfraith, barddoniaeth a cerddoriaeth ac yn ddiweddarach am y crefft gwneud doliau a chadw gwenyn.

Ym mis Ebrill rydym ni'n gobeithio cystadlu yn Eisteddfod y Dysgwyr ac ym mis Mai (9fed) fe fydd y noson dan ofal Basil Davies.

Dim ond criw bach ydym ni ond mae croeso cynnes i unrhywun ymuno a ni ar yr ail Nos Fercher ym mhob mis am 8.00.

PENODIAD GWEINYDDOL.

Yn ddiweddar penodwyd y Dr. Alun Wyn Roberts, Birmingham, yn Gofrestrydd ac Ysgrifennydd yr Ysgol Feddygol Gymreig i olynu Mr. T.R. Saunders sy'n ymddeol o'r swydd ar ôl pymtheg mlynedd o wasanaeth. Bydd Dr. Roberts yn cychwyn ar ei swydd newydd ym mis Gorffennaf.
Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd a phwysig yng Nghaerdydd.



# COLOFN
## Shân Emlyn

Mae hi'n ben set arnai'r mis yma gan fy mod yn mynd i'r Gogledd am rai dyddiau yfory, a rhaid cyflawni'r dasg o lenwi fy ngholofn cyn clwydo heno. Ond och! Does gen i ddim i'w ddweud! Be wnai?

Mae gen i hanner awr cyn gwylio pennod arall o "The Jewel in the Crown". Yda chi'n ei gwylio? Mae gofyn i rywun fod yn dipyn o athrylith i wybod ar pa sianel i'w gwylio - yda chi fel finna wedi eistedd i wylio pennod a darganfod mai pennod a fu 'sy' mlaen, neu eich bod wythnos ar y blaen i chi'ch hun? Pam medda chi y mae rhywun yn gwylio peth mor Brydeinig - ac yn cael blas arno. Ond dyna fo - ond yda ni i gyd "yn gymysg oll i gyd".

O sôn am raglenni teledu - welsoch chi Elinor yn sgwrsio â'r Gwladfawyr - y tri ohonynt? Yvonne Owen sydd wedi ymdrechu a brwydro'n galed i gael aros yng Nghymru, a chael 'i hun yn dysgu mewn cornel Seisnig o Glwyd - mewn lle llai Cymraeg na'i hardal enedigol wyth mil o filltiroedd o Gymru. Gloria Thomas wedyn yma ar ei hail ymweliad â Chymru, wedi dychwelyd ar ôl sefydlu Ysgol Feithrin Gymraeg a Dosbarth-iadau dysgu Cymraeg yn y Gaiman. Hithau'n cael blas ar astudio llenyddiaeth Gymraeg, ac wrth ei bodd. Rene Griffith y gaucho wedyn, fel chwa o awel iach â'i agwedd sipsiaidd at fywyd. "Newid aelwyd bob yn eilddydd" yw ei arwyddair. Mae'n Archentwr, mae'n Gymro, ac mae'n rhyng-wladol - mae 'na afiaith yn ei agwedd mai pobol sy'n bwysig yn y pendraw. Mae ei gynfas o gymaint ehangach na fu'n i, ac eto mae 'na debygrwydd - mae ynddo yntau'r elfen "ni allaf ddianc rhag hon". Dyna i chi sylw deifiol Yvonne wedyn yn dweud petae'n dychwelyd i'r Wladfa, na wnai ymladd dros y Gymraeg yno bellach, ond dros iaith yr Indiaid a'u diwylliant, am ei bod yn teimlo bod y Cymry wedi lladd yr iaith honno fel mae Lloegr er erioed wedi ein bygwth ninnau. Rhyfedd o fyd ynte.

Cyngerdd
gan

<u>CÔR CANOLFAN CAERDYDD</u>

NOS SADWRN,
EBRILL 14, 1984
AM 7.30
yn

EGLWYS EBENESER,
Heol Siarl, Caerdydd.

<u>"NELSON" MASS (Haydn)</u>

<u>UNAWDWYR</u>:-

Eirian Davies (Sop)
Doreen O'Neill (Alto)
Geraint Roberts (Tenor)
Arwel Morgan (Bâs)

<u>ORGANYDD</u>:-

Christopher Powell.

<u>ARWEINYDD</u>:-

Islwyn Evans.

PRIS: £2.00

(Tocynnau gan aelodau'r côr neu o siop Taflen)

Gwahoddwn chi'n gynnes iawn i
<u>GYMDEITHAS Y DYSGWYR</u>.

Ble? Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd.

Pryd? Unwaith y mis, ar yr ail Nos Fercher am 8.00 o'r gloch.

ac yn arbennig ym Mis Medi. Noson dan ofal BASIL DAVIES.

<u>CLWB Y DWRLYN</u>.

Ar Fawrth y cyntaf, ar ddydd ein Nawddsant, bu Clwb y Dwrlyn, sef Cymdeithas Gymraeg pentrefi Pentyrch, Creigiau a Gwaelod-y-Garth, fel cymdeith-asau dirif dros y byd ben-baladr, yn dathlu achlysur gyda Cinio Gwyl Ddewi.

Bu'r gwledda yng Ngwesty'r Mount Sorrell yn y Barri, a braint fawr eleni oedd cael y Dr. Raymond Edwards, prifathro'r Coleg Cerdd a Drama, yn westai. Cafwyd araith rymus ganddo a phleser pur oedd gweld yn ogystal a gwrando arno'n traddodi. Tywyswyd y criw oedd yn bresennol o ddyddiau tywyll barddoniaeth gynnar hyd at y presennol yn hynod gelfydd a chain a phrofwyd o'i gof anhygoel tra'n adrodd darnau helaeth o'r Mabinogi â'r gwaith y cywyddwyr. Cafwyd ganddo neges amserol wedi ei chyflwyno mewn dull unigryw.

I gynnal naws yr Wyl, cafwyd datganiad ar y delyn gan Kim Morgan o Goleg y Brifysgol, Caerdydd, a hyfryd oedd gwrando ar alawon hen a newydd yn cael eu cyflwyno mor gywrain ganddi hi. Yn sicr mae dyfodol disglair iddi hi yng nghwmni ei thelyn ar lwyfanau Cymru - cofiwch yr enw.

'Roedd y bwyd o safon arbennig, â'r ystafell fwyta wedi ei haddurno yn brydferth dros ben. Noson yn sicr y byddai Dewi yntau yn falch o fod yn bresennol.

---

Dylid anfon yr holl ddeunydd ar gyfer y rhifyn nesaf at y Golygydd,139,Faiwood Rd,Llandaf erbyn Ebrill 19eg.<u>NI</u> dderbynir unrhyw ddeunydd ar ol y dyddiad hwn.

## UNWAITH ETO 'NGHYMRU ANNWYL.

Profiad digon surfelys oedd mynd i weld drama newydd Gareth Meils. Unwaith eto 'Nghrymu Annwyl..... draw yn Chapter yn ddiweddar. Ar y naill law cafwyd gwledd wirioneddol o ran theatr tra ar y llaw arall doedd ond rhyw bymtheg o bobl yn gynulleidfa, (dim digon i lanw Sêt Fawr capel y Crwys heb sôn am res flaen Côr Canolfan Caerdydd!) i dystio i'r wledd honno. 'Sdim rhyfedd ei bod hi'n unfed awr ar ddeg ar rai o'n cwmnïau drama y dyddiau 'ma. Ond 'ta beth am hynny, ymlaen at y cynhyrchiad. O'r braidd y gellir dweud bod gweithiau llenyddol Gareth Meils yn rhai cysurus. Byddai 'pryfoclyd' neu 'ddeifiol' yn ddisgrifiadau mwy addas, ac yn sicr byddent yn gwenud y tro i'r dim cyn belled ag y bo Unwaith Eto 'Nghymru Annwyl yn y cwestiwn .....yn wahanol iawn i'r hen gân Gymraeg o'r un enw.

Drama gomisiwn yw'r ddrama hon fel Diwedd y Saithdegau hithau...., y ddrama a roes anadl einioes i Gwmni Sgwâr Un (Cwmni Hwyl a Fflag/Sgwâr Un erbyn hyn). Ond mae'r ddrama ddiweddara 'ma'n fwy aeddfed a disgybledig o lawer na'i rhagflaenydd er bod nifer o ffactorau'n gyffredin i'r ddwy, sef neges ac ymdriniaeth gyfoes, eironi, gwawd a'r bregeth wleidyddol gyfarwydd. Drama gonfensiynol yw hi ac er bod iddi elfennau didactig a phregethwrol mae'n haws i'r gynulleidfa eu derbyn gan eu bod yn rhan hanfodol o'r ddrama yn hytrach na bod yn fodd i Mr. Meils floeddio o'i focs sebon. Wedi dweud hyn oll dylwn bwysleisio taw rhan yn unig o'r ddrama yw'r wleidyddiaeth a'r un mor ganolog yw'r berthynas rhwng y gwahanol gymeriadau.

O'r olygfa agoriadol daw'r gynulleidfa i ddeall fod 'na rhywbeth o'i le, fod rhywun go bwysig yn nhermau glweidyddiaeth y genedl wedi diflannu. Dyma fynd ati'n ddiymdroi i gyflwyno tri o'r pedwar prif gymeriad, ac mae'r tyndra a'r berthynas rhwng y tri yn effeithiol tu hwnt. O dipyn i beth daw'n hysbys fod Owain ( Mei Jones ), sef gŵr y tŷ a chenedlaetholwr brwd wedi gadael ei wlad, ei blant a'i wraig Morfudd ( Sharon Morgan ) i dreulio cyfnod mewn gwledydd tramor er mwyn ceisio gosod cenedlaetholdeb Cymreig mewn cyd-destun byd-eang. Swm a sylwedd y ddrama yw'r effaith mae hyn yn ei gael ar Morfudd, ar Siôn ( Tom Richmond ) sy'n genedlaetholwr Adferaidd ifanc yn drwm o dan ddylanwad y 'guru' Owain, ac ar Dewi ( Gwyn Parri ) sy'n newyddiadurwr gyda chwmni teledu ac sy'n ysu am gael cyhoeddi sgŵp fwyaf ei yrfa i'r genedl ac i'r byd.

Pan ddaw Owain nôl o deithio'r byd dyma ddechrau'r dadleuon. Mae cymaint o bethau wedi newid ers ei ymadawiad, a bellach mae'n rhaid rhoi trefn ar y cwbl a dod o hyd i'r cydbwysedd brau. Yn ystod y golygfeydd sy'n dilyn mae 'na beth wmbredd o resymu politicaidd a charthu syniadau am sefyllfa'r ferch o fewn y teulu ac am y berthynas rhwng dyn a menyw. Unwaith eto mae Gareth Meils yn ymgymryd â phynciau gwaelodol, sylfaenol ac yn ein gorfodi i feddwl. Ac yn y ddrama hon mae'n llwyddo. Mae'n pigo cydwybod, yn amlygu'n culni fel cenedl, yn chwerthin am ein pennau, ac ambell waith nid yw'r gynulleidfa'n gwbl sicr ar bwy mae'r jôc.

Nid yw'r ddrama heb ei gwendidau ond fel mewn priodas dda, mae'n debyg, pan fo'r ddeialog yn simsanu daw'r actorion i'r amlwg i gynnal y cynhyrchiad.....ac am actorion! Pam, o pam nad ydym yn gweld Sharon Morgan yn amlach .....ar lwyfan ac ar y sgrîn. Cafwyd perfformiad sensitif iawn ganddi fel unig wraig y ddrama. Yna Gwyn Parri, Tom Richmond a Mei Jones hwythau......rhai o'n hactorion gorau ni......roeddynt oll, yn ogystal â Gareth Meils, yn haeddu gwell cynulleidfa na'r llond dwrn a aeth i Chapter 'bell' yn ystod Gŵyl Ddewi i weld Unwaith Eto 'Nghymru Annwyl.

IOAN KIDD.

---

## CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD.

Cynhaliwyd cinio'r Cylch ar Nos Iau, Mawrth 8fed gyda Miss Evelyn Williams yn siaradwraig. Ei thestun oedd 'Oriau Heulog' ac wrth drafod y digwyddiadau a'r bobl hynny sy wedi codi ei chalon o bryd i'w gilydd fe ddefnyddiodd, fwy nag unwaith, y gair 'gorfoledd'. Dyna, mae'n debyg, air y Sbaenwr am ymddeoliad a buan iawn y gwelsom ni bod gorfoledd yn rhan o brofiad ein gwestai, nid yn unig yn awr, ac hithau wedi ymddeol, ond hefyd drwy ei gyrfa disglair fel actores ar lwyfan a radio a fel cynhyrchydd rhaglenni plant y BBC.

Byddwn yn cyfarfod eto, nos Iau, Mai 10fed a'r siaradwraig fydd Dr. Ilid Anthony o'r Amgueddfa Werin, a'i thestun - "Hen ddulliau o ofalu am y tŷ a'r teulu".

Cofiwch, mae croeso i bawb ymuno a'r Cylch. Pris y swper yw £6, a mae'n bryd o fwyd da iawn. Codwch y ffôn a chael gair â:-

Y Cadeirydd: Cit Boobier 487276.

Y Rhath,
CAERDYDD.

16.3.84

LLYTHYR CAS ARALL!

Annwyl Syr,

Mae'n rhaid i mi gyfleu fy anfodlonrwydd ynglyn ag ansawdd amheus yr erthyglau yn argraffiadau diweddaraf y Dinesydd. Erthyglau gwan, diamcan wedi eu dodi mewn modd anniben, sy'n awgrymu diffyg o unrhyw bolisi olygyddol. Trawodd yr argraffiad diwethaf iselbwynt eithafol gyda'r gerdd druenus yna am y gêm bêl-droed. Sawl un, tybed; sydd am ddarllen am fuddugoliaeth ddi-ystyr rhyw dim pêl-droed sy'n gorwedd yn llesg ar waelod y bedwerydd adran o'r gynrhair leol? 'Does ryfedd os nad yw'r Cymry Cymraeg yn yr ardal am ddarllen y copiau o'r Dinesydd sydd yn aml yn cael eu gwthio arnynt.

Mae'n bwysig iawn i'r brifddinas gael ei phapur annibynnol eu hyn, ond da chi, un sy'n dangos tipyn mwy o fywiogrwydd golygyddol. Mae llawer o fygythiadau difrifol yn wynebu ein hiaith yn y ddinas ac y dylid eu dadorchuddio. Hyd yn oed ar ôl taclo'r fath bwnc a'r bygythiadau yn erbyn addysg Gymraeg yn y sir yn y gorffennol, bu'ch sylwadau yn hynod o wan a gwlanog.

Os oes pryder o gwbl ynglyn â'r busnes addysg yma, hoffwn awgrymu y dylid archwilio un broblem yn arbennig sef:-

Dylanwad y Seiri Rhyddion oddi mewn i'r gyfundrefn addysg gyhoeddus yn Ne Morgannwg ac effaith niweidiol ar ansawdd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid cyd-ddigwyddiad mohono fod y Cyfarwyddwr Addysg, nifer o'r prif-gynghorwyr addysgol, a rhai prif arolygwyr llywodraethol yn yr ardal yn Seiri Rhyddion. Nid hyn yn unig ychwaith. Mae cryn nifer o Seiri Rhyddion yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion Cymraeg yn ogystal ac ysgolion Saesneg y ddinas. Os drwy ganlyniad dylanwadau Masonig y dewisir prif benodiadau'r sir, yn hytrach na thrwy phwyslais ar y gallu i ddysgu, bydd safon addysg ar bob lefel yn syrthio'n gyflym.

Byddai'n syniad ardderchog i'r Dinesydd ofyn am gyfweliad â'r Cyfarwyddwr Addysg i drafod y mater. Yn ogystal gellid anfon holiadur at bob prifathro ysgol yn Ne Morgannwg yn ymwneud â'r un pwnc. Byddai'r atebion (neu diffyg atebion) yn taflu goleuni i mewn i gorneli tywyll iawn o'n cyfundrefn addysg lleol.
Tybed oes wroldeb ddigon gan y Dinesydd i geisio'r fath beth?

Yr eiddoch yn gywir,

MELVILLE MARLOWE,
Athro Cymreig.

---

Gol. Deallwn nad dyna enw cywir y llythyrwr hwn.Mae cyhoeddi llythyr hwn yn groes i bolisi arferol y papur.Y cyfan sydd i'w ddweud yw fod beirniadu yn haws na gwneud. Felly, beth am gynnig erthygl ar ddylanwad y Seiri Rhyddion ar addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg? Byddai'n bleser gennym ei chyhoeddi, ar yr amod ei bod yn gytbwys ac nad yw'n enllibio neb, wrth gwrs. Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

---

Hoffai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig am eu cymorth ariannol.

# PYTIAU

Llongyfarchiadau i Ian Jones - Trysorydd y Dinesydd - ar ei swydd newydd gyda Theledu London Weekend. Mae Ian yn gweithio fel cyfrifydd gydag S4C ar hyn o bryd. Diolch yn fawr iawn iddo am ei waith caled yn ystod ei gyfnod fel trysorydd.

---

Llongyfarchiadau i Bethan (Jones Parry) a Roy Jones ar enedigaeth Catrin Siriol ar Fawrth y 15fed. Ychwanegiad arall i'r feithrinfa yn Ystafell Newyddion y BBC!!

---

Ar Chwefror 26ain, ganed Marged Elin, merch fach Wyn a Beth Thomas. Croeso mawr iddi a llongyfarchiadau cynnes i'w rhieni; Wyn yn Bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth yn Ysgol Llanhari a Beth yn Ymchwilydd yn yr Adran Dafodieithoedd yn yr Amgueddfa Werin yn San Ffagan.

---

A gwellhad buan hefyd i Ann Thomas, gwraig Wyn Thomas y pensaer sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol.

---

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Ruth Parry o'r BBC sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Gobeithiwn ei gweld yn ôl yn holliach cyn bo hir.

---

Peidiwch â thaflu'ch stampiau post. Rydym ni, yn ysgol feithrin Llandaf, yn eu casglu, felly pan fyddwch yn taro mewn i Ganolfan yr Urdd, cofiwch lenwi'r amlen sydd yno ar eich cyfer. Diolch!

---

Llongyfarchiadau i Diane ac Arthur Evans ar enedigaeth merch fach - Rhiannon Mai - yn ysbyty Dewi Sant ar y deuddegfed o Fawrth.

---

GALWAD I'R BALA.

Wedi deg mlynedd o wasanaeth fel gweinidog Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth, a chyfnod mymryn yn llai yn gweinidogaethu eglwysi annibynnol Sardis, Pontypridd a Thabernacl, Ynysybwl, bydd y Parchedig Rhys Tudur yn gadael yr ofalaeth ar ddiwedd mis Mai. Derbyniodd alwad i roi o'i wasanaeth i eglwys Annibynnol y Bala a dwy chwaer eglwys yn y cylch.

Cymysgfa o lawenydd a thristwch oedd ymateb y gynulleidfa i'r newyddion ar Sul cyntaf mis Mawrth eleni - tristwch yn naturiol o ystyried y byddid yn colli gweinidog ifanc, dawnus ac egniol o'u plith, ond llawenydd wrth ymfalchio fod cwr arall o Gymru am gael rhannu o'r un gwmniaeth hapus a fu rhwng bugail a'i braidd tros y blynyddoedd.

Bu ei ddyfalbarhad i greu eglwys fyw, a'i drysau ar agor trwy'r wythnos, yn hynod lwyddiannus, a phrawf pendant o'i boblogrwydd fel gweinidog a chyfaill oedd y nifer cynyddol o aelodau newydd a ddymunai ymestyn am y gwirionedd trwy'i arweiniad ef.

Bydd capel yn colli gweinidog, bydd ardal yn colli cymydog, ond gellir cyfiawnhau dweud fod yr Eglwys wedi elwa ar ei chanfed yn ystod gweinidogaeth gyntaf Rhys Tudur. Rhaid peidio anghofio cyfraniad Blin, ei wraig, i'r berthynas yma, a chofnodi y bu iddi hithau hefyd ysgwyddo'r baich sy'n gysylltiedig â'r "Mans" yn ddiflino trwy'r amser.

Dymuniadau gorau'r 'Dinesydd' felly i Rhys, Blin, Sion, Ffion ac Ifan ym Mhenllyn a diolch am eu cwmni cyhyd.

YR AGORIAD.

"Pwy sy'n sicr?"

gan Leigh Verrill-Rhys.

Ym mis Mawrth, 'roedd golygyddol mewn cylchgrawn Cymraeg yn sôn am y ffaith nad ydy'r Saeson yn dathlu Dydd Sant Sior fel gwyl genedlaethol yn yr un ffordd mae'r Cymry'n dathlu Gŵyl Ddewi. Yn anhebyg i'r Golygydd, dw i ddim yn credu taw'r rheswm am hyn yw bod y Sais yn "hollol sicr ohono'i, parhad ei iaith a'i ddiwylliant".

Ai Lloegr ydy'r unig wlad yn y byd? Buasai unrhyw un yn derbyn yr argraff honno wrth siarad ag ambell Sais sy'n meddwl felly, yn arbennig y rhai sy ddim wedi derbyn marwolaeth yr "Ymerodraeth" o hyd. Mae'n rhyfedd hefyd fel mae ambell Cymro yn meddwl yn yr un ffordd.

Wrth feddwl amdano, mae'n rhyfedd iawn nad ydyn nhw'n dathlu eu Seisnigrwydd. Pe buasech chi'n meddwl am unrhyw genedl arall yn y byd, fe buasech chi'n sicr o sylweddoli bod gan bob un rhywfath o ŵyl genedlaethol sy'n dathlu unigolrwydd y genedl honno. (Mae gan yr Unol Daleithiau ryw hanner dwsin o leiaf! Ac mae gan hyd yn oed Mecsico ddwy neu dair).

Beth, heblaw gwyliau banc a dyddiau coffa rhyfel, y mae'r Saeson yn ei ddathlu? Y Nadolig a'r Pasg fel pob gwlad Gristnogol, ond a oes yr un sy'n unigryw iddynt? Dydy Lloegr ddim yn gallu dathlu 1066 - collon nhw eu hannibyniaeth, nid ei ennill. Mae rhai Cymry'n dathlu 1282, er y collodd Llywelyn II, am nad ydyn nhw wedi derbyn y golled - maent yn dal i sefyll dros annibyniaeth eu gwlad.

Mae gwyliau Cymreig yn hynod o hen; mae'r rhan fwyaf yn mynd yn ôl i gyfnod y Celtiaid La Téne (Celtiaid cynnar iawn ar y cyfandir) ac hyd yn oed cyn hynny. A oes gan y Sais gymaint o sicrwydd yn "parhad ei iaith a'i ddiwylliant" a all e ddweud bod gŵyl y banc ym Mai yn cysylltu â'r Eingl-Saeson cynnar? Mwy na thebyg, mae'r ŵyl hon yn cysylltu â'r Celtiaid hefyd!

Mae'n hen bryd i'r Cymry gyfaddef eu grym diwylliannol.

GEIRFA:

| | |
|---|---|
| ymerodraeth, | empire. |
| coffa, | memorial. |
| annibyniaeth, | independence. |
| grym, | strength. |

# LLONGYFARCH

Llongyfarchion i Blenid, merch George a Nest Owen a disgybl yn Ysgol Glantaf, ar lwyddo i gyrraedd prawf terfynol cystadleuaeth TSB "Cerddor Ifanc Cymreig y Flwyddyn". Cynhaliwyd y prawf cynderfynol yn neuadd y Brangwyn, Abertawe, Nos Lun, Mawrth 12fed, lle daeth deg cerddor ifanc ynghyd o wahanol rannau o Gymru i ymgiprys am chwe lle yn y prawf terfynol. 'Roedd y gystadleuaeth o'r safon uchaf a pherfformiad Blenid ar y feiolin yn wefreiddiol. Dymunwn pob hwyl iddi yn y prawf terfynol yn Theatr Clwyd,

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal,
Ffôn: Caerdydd 43367



# Y SILFF LYFRAU

Dyddgu Owen Cri'r Gwylanod
Gwasg Gomer £2.25
W.S. Jones Ifas y Tryc
Y Lolfa £1.85

Methiant Dyddgu Owen i sgwennu nofel sbei ydi Cri'r Gwylanod ac mae Gwasg Gomer, a dwn i ddim pam, wedi ail-gyhoeddi'r stori denau yma am yr athrawes Nanws Maredydd, o ryw-rywbryd Gymru Annibynnol, yn gorfod mynd â neges gyfrinachol i Iwgoslafia, gwlad sy'n gwrthod ymuno, a dwi'n dyfynnu:

....... yn y syniad fod yr allwedd i heddwch y byd yn nwylo'r gwledydd bychain......a chredwn y dylai Cymru yn rhinwedd ei thraddodiad Cristnogol fod ar y blaen yn hyn o beth.

Anwybyddwch y gystrawen Seisnig am eiliad oherwydd yn y cywair crefyddol ddiniwed yna yr aiff y nofel-bregeth yn ei blaen. Trên i Prag efo Dai, siofinist sy'n diflannu am weddill yr antur, diolch i'r drefn, tra mae Nanws, am y tro cyntaf erioed, yn neidio parasiwt, dringo mynyddoedd a chyniwair Iwgoslafia i ymuno yn y gwrthryfel yn erbyn (sic) Imperialia. O.....a gyda llaw, mae yna garwriaeth hefyd. Noson yn y gwely efo Karel. Dim manylion. Ond be dach chi'n ddisgwyl? Gwefr?

Oes mae na enwau fatha Brno, Tatra a Bratislavia o gwmpas ac mi fedra i gredu fod Dyddgu wedi bod yn Iwgoslafia am o leiaf bythefnos o wyliau cyn sgwennu'r stribyn yma o ystrydebau sy'n gwneud stori sbei heb densiwn, gwaed na bwledi. Er, chwarae teg, mae yna un o'r dynion drwg yn marw cyn y diwedd. Ond hyd yn oed wedyn mae o'n gorfod lladd ei hun trwy lyncu pilsen wenwyn. Unrhywbeth i adael y greadigaeth yma.

Doniolwch, ar y llaw arall, ydi bwriad Wil Sam ac Ifas y Tryc ydi cerbyd enwoca hiwmor garej Rhoslan. Y Lolfa sy wedi rhoi ail got o baent i beiriant ddyle falle gael heddwch yn y sgrap-bwc.

Model wnaethpwyd i fesuriadau Stewart Jones oedd Ifas moto lori, felly does yna ddim posib disgwyl fawr o ddyfnder nac amrywiaeth. Ond mae darllen y maniwal bellach fath a dargan-fod hen jig-so oedd ganddoch chi'n saith oed. Rhowch y darne at i gilydd, rhwysg stacato, malaprop Saesneg bob yn ail, hwna ydio. Ifas ydi'r ddihareb sy wedi drysu, byth yn fotio Plaid ond yn casau'r Ingland Refiniw; a phan gall y cyll..... mae'r sitiwesion sefyllfa un ai yn 'witsh dreif' neu'n 'frethileisar'. Ydi'r cwbl yn ddoniol? Sgersli bilif!

'Anti ffris', me Jo.
'Pwdi honno?' me fi.

Ond pan fydd y mecanig moto beic wedi'i diwnio a'r dychan wedi'i agor i'r pen does na neb na all gystadlu. Na, no, nefar. Me fo wrth Jo sy'n ei hudo i'r Pyblig Bar. Er eiliadau wedyn yn ei ragrith gorau ma Ifas yn ordro 'Wan pityr lemon a wan sieri-binc' a tydi'r trycar ddim yn medru peidio. 'Darling', me fo, 'iw shat on myi handicap'.

A phan fo Wil Sam yn gwneud hynny i handicap mae o ar ei orau; ei allu mawr ydi sbotio man gwan a rhoi gwên.

GLYN ELWYN.

> Dymuna'r Dinesydd ddiolch am gymorth hael Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig.

Gweneth Lilly Hogan y Plas
Gwasg Gomer £2.95

Dyma nofel hyfryd ar gyfer plant ac oedolion. Yn y bennod gyntaf gwelwn ferch 14 oed o'r enw Sydna yn cyrraedd plas ym Môn lle y bydd hi'n forwyn. Mae ei phersonoliaeth a'i phryderon yn cael eu cyfleu yn fyr ac yn effeithiol. Awn am dro i'r gerddi a gweld yno elfen o brydferthwch ac arswyd, a rhyfeddu, hefyd, at fanylder y disgrifiadau.

Ceir digonedd o hiwmor yn y gyfrol a chyfeiriadau eironig a sinistr hefyd; digon o gyffro yn ogystal. Paham na all hapus-rwydd y cymeriadau barhau? Pwy yn union yw'r Eidalwyr? A oes ysbryd yn y tŷ?

Mae llu o gymeriadau diddorol yma, rhai yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn y stori, a thrwy'r cyfan mae Sydna yn ferch hyfryd a dyfeisgar.

Nid yw'r gyfrol yn rhydd o wallau iaith a chysodi, ac ambell waith ni all yr awdur ymatal rhag pentyrru ffeithiau hanesyddol neu gymdeithasegol, ond, at ei gilydd, mae hwn yn drysor o lyfr.

PHILIP WYN JONES.

---

"The Importance of Being Earnest"

A pham, meddech chi, mae yma bennawd Saesneg fel hyn yn ymddangos yn "Y Dinesydd"? Wel, am mai dyna deitl y ddrama a berfformir yn neuadd Ysgol Gyfun Glantaf ar Nosau Iau a Gwener 5 a 6 Ebrill, am saith o'r gloch. Y gomedi hon, gan Oscar Wilde, fydd cynhyrchiad Saesneg cyntaf yr ysgol, diolch i gydweithio brwd gan sawl adran. Atyniad ychwanegol yn y perfformiad fydd y gwisgoedd, a fenthyciwyd i'r ysgol gan Gwmni Theatr Old Vic, Bryste. Dowch yn heidiau i'n cefnogi!

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Ychydig o amser yn ôl bellach cyfarfu nifer o feirdd y ddinas yma am noson o gynganeddu. Trannoeth buddugoliaeth y dawnswyr iâ Torvill a Dean yn Sarajevo ydoedd, a naturiol oedd gosod y ddeuddyn yn destun englyn. Wele'r cynigion a wnaethpwyd gennym y noson honno.

TORVILL A DEAN.

Sigl o wefr sydd i'r sglefrwyr yn eu dawns
hyd iâ fel pencampwyr;
Gwnant droeon di-rif difyr
o'r rhediad oer hyd eu dur. (J.W.)

Gwibiant, ehedant am hydoedd ar iâ
er awydd y miloedd;
fel melfed eu gweithredoedd,
crynu wrth garu ar goedd. (Pwy?)

A welsom ni atomau ar ruthur
drwy yr ether denau
yn ceulo'n foleciwlau
wrth gydio dwylo ill dau? (E.L.)

Diwyd yw'r crefftwyr dehau yn torri'r
plât arian a'u llafnau
oer o ddur nes creu o'r ddau
eithriadol ysgythriadau. (T.A.W.)

Gwelwch hwynt ar gylch o iâ yn gyrru
i guriad y samba;
cymhleth-wau wna'r ddau yn dda,
yn imiwn rhag niwmonia. (O.A.)

Yr oedd gan raglen 'Helo Bobol' eisteddfod radio yn yr arfaeth bryd hynny hefyd, a dyma rai o'r cynigion ar y testun 'Nant Gwertheyrn'.

NANT GWRTHEYRN.

Digynnal a digalon fu'r hen nant,
yn fro nawdd i'w meirwon;
a dyf hil o'i hadfeilion
â'u gobaith, trwy'r heniaith hon?

PENTRE NANT GWRTHEYRN.

Wele, mae'r un fu'n aliwn yn neidio
a dawnsio drwy'r dwnsiwn
yn hurt 'rôl canfod ffortiwn
y Gymraeg ym muriau hwn.

NANT GWRTHEYRN.

Câr a chymar gwâr eu gwedd a noddant
heddiw ei thangnefedd;
ffydd a gobaith maith a'i medd;
yfory gwelwn fawredd.

# CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

# CLWB IFOR BACH

## MAI 3ydd am 7.30


Cofiwch am y cyfarfod blynyddol yng Nglwb Ifor Bach ar Fai y 3ydd. Fe fydd rhaid ystyried enwau ac ethol aelodau i'r Pwyllgor Rheoli a'r Panel Golygyddol. Yn fwy na dim mae angen Golygydd newydd ar y Dinesydd.

Oes gennych chi ddawn sgwennu,syniadau newydd,digon o egni ac ymroddiad?Beth am gynnig eich enw yn y cyfarfod blynyddol?Eich papur CHI yw'r Dinesydd,eich syniadau CHI, a'ch llafur CHI sy'n creu'r papur.Cefnogwch y Dinesydd. Dewch i'r cyfarfod blynyddol ar Fai y 3ydd.

MERCHED Y WAWR

Fel arfer bu'r gangen unwaith eto'n cynnal eu cyfarfod am fis Mawrth yn yr Aelwyd. Noson o sgwrsio a swpera gyda'r dysgwyr fu hi a bu cryn fwyta a chryn siarad yno am beth amser. Diolchwyd i'r nifer dda o Ferched y Wawr a droes i mewn gan Mr. Gwilym Roberts.

# STEDDFOD YR URDD



HELP! HELP! HELP! HELP!

Mae eisiau byddin o weithwyr i stiwardio'r arddangosfa a drefnir yn y Ddinas drwy wythnos Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Cylch ac hefyd i redeg stondinau'r Eisteddfod yng Ngŵyl yr Wyddgrug eleni ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbedr-pont-steffan.

Yn ystod wythnos y Cyhoeddi y prif ddyletswyddau fydd gofalu am yr arddangosfa, siarad â'r cyhoedd am yr Urdd ac am yr Eisteddfod a gwerthu nwyddau. Fe fydd angen cael gweithwyr mewn shifftiau tair awr y tro o naw y bore tan chwech y nos o ddydd Sadwrn, y 12fed o Fai tan ddydd Sadwrn y 19eg o Fai.

Dyddiadau Eisteddfod yr Urdd yn yr Wyddgrug yw'r 29ain o Fai tan yr 2ail o Fehefin, ac Eisteddfod Llanbed o Awst y 4ydd i'r 11eg. Fe fydd angen gweithwyr eto mewn shifftiau drwy'r dydd yn y ddwy eisteddfod i ofalu am y stondinau, i redeg gemau ac atyniadau eraill i siarad ag ymwelwyr ac i werthu nwyddau.

Felly, os ydych am ymuno â'r criw hapus fydd yn rhedeg yr arddangosfa a/neu'r stondinau a chael tipyn o hwyl yr Haf yma tra hefyd yn helpu'ch Eisteddfod, rhowch eich enw 'nawr i Gareth James, Trefnydd yr Eisteddfod, 127 Station Rd., Port Talbot, Gorllewin Morgannwg, Ffôn: 0639 887149.

WYTHNOS O DDIDDANWCH A DATHLU I GYHOEDDI'R EISTEDDFOD.

Trefnwyd wythnos lawn o weithgareddau yn y Ddinas ym mis Mai i gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985.

Uchafbwynt yr wythnos fydd Seremoni'r Cyhoeddi yn Neuadd Dewi Sant ar ddydd Sadwrn y 19eg o Fai.

Ond fe fydd y gweithgareddau yn cychwyn y Sadwrn cynt, 12fed o Fai, pan y sefydlir arddangosfa arbennig yn Stryd y Frenhines. Bwriad yr arddangosfa fydd cyflwyno'r Urdd a'r Eisteddfod i bobl Caerdydd. Fe fydd yr arddangosfa'n parhau drwy wythnos y cyhoeddi tan ddydd Sadwrn y 19eg

Dawns i blant yng Nghanolfan yr Urdd fydd yr achlysur cyntaf gyda'r nos yn ystod yr wythnos. Cynhelir y ddawns ar Nos Fawrth y 15fed o Fai.

Trannoeth, Nos Fercher y 16eg, noson gyffrous yn Neuadd Dewi Sant lle cynhelir Cyngerdd Roc gyda Caryl a'r Band a'r Brodyr.

Un o'r nosweithiau mwyaf llwyddiannus a gynhaliwyd eisoes i roi cyhoeddusrwydd i'r Eisteddfod ac i godi arian tuag at gronfa'r Ŵyl oedd cyngerdd gan Ysgolion y Ddinas yn Neuadd Dewi Sant ym mis Mawrth y llynedd. Cyngerdd i lansio gweithgareddau'r Eisteddfod oedd yr achlysur hwnnw gyda phlant 16 o ysgolion ardal Caerdydd yn ymuno i lwyfannu'r cyngerdd amrywiol.

EBRILL

7fed: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch, 1985, Cymuned Rhiwbeina, Ffair y Pasg, Neuadd Beulah, 2 o'r gloch y prynhawn. Agoriad Swyddogol gan Rachel Thomas, Cystadleuaeth hetiau Pasg i'r plant, stondinau, gemau, raffl a llu o atyniadau eraill.

MAI

12 – 19: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch, 1985. Wythnos y Cyhoeddi: Arddangosfa drwy'r wythnos yn Stryd y Frenhines.

15: Dawns i blant yng Nghanolfan yr Urdd.



16: Cyngerdd Roc yn Neuadd Dewi Sant gyda Caryl a'r Band a'r Brodyr.

17: Cyngerdd gan Ieuenctid Ysgolion De Morgannwg yn Neuadd Dewi Sant.

18: Gweithgareddau yn y Cymunedau.

Cymuned Rhiwbeina – Twmpath Dawns yn Neuadd Goffa, Rhiwbeina.

19: Gorymdaith drwy'r Ddinas. Seremoni'r Cyhoeddi yn Neuadd Dewi Sant. Ffair yng nghanol y Ddinas.

# 'STEDDFOD YSGOL GLANTAF

Mae'r Eisteddfod Gwyl Ddewi wedi ennill ei phlwyf erbyn hyn fel un o'r prif binaclau yn y flwyddyn Ysgol. Am gyfnod cyn y diwrnod mawr bu lleisiau peraidd yn atseinio drwy'r coridorau wrth i'r ymarferion fynd yn eu blaen. Hawdd byddai perswadio unrhyw ymwelydd mai môr o gân yw Glantaf i gyd. Llawer tawelach oedd y gweithgarwch yn yr amrywiol gystadleuthau gwaith cartref. Ond yr un oedd y nôd, sef ennill marciau gwerthfawr i'r llys a phob aelod o lysoedd Dyfrig, Teilo ac Illtud yn benderfynol na fyddai Dewi yn cipio'r darian am y bumed tro yn olynnol.

Bonws arbennig eleni eto i fuddugwyr y rhagbrofion oedd ymddangos ar lwyfan Neuadd Dewi Sant ysblennydd, yn sicr profiad byth gofiadwy i'r Glantafwyr ifainc. A chefnogwyr lliwgar a selog y gwahanol lysoedd yn llenwi'r awditoriwm ac amryw o rieni eiddgar a chyfeillion yr achos ar y silffoedd uchaf, 'roedd yr awyrgylch gyffrous yn blatfform i ddiwrnod cyfan o gystadlu brwd.



Bron y gellid galw'r achlysur yn Eisteddfod codi'r to, cymaint oedd cymeradwyaeth gwresog a phleidiol y gwahanol lysoedd ar ôl dyfarniad y beirniaid. Ac nid gorchwyl hawdd oedd gan y beirniaid mewn llawer i gystadleuaeth lafar a cherddorol lle 'roedd y safon mor uchel.

Fel yn y Genedlaethol ei hun uchafbwynt Eisteddfod Glantaf oedd cadeirio'r bardd buddugol. Y gamp oedd cyflwyno ffolio o waith ysgrifenedig, a da oedd clywed gan y beirniad, Dr. Meredydd Evans bod Roland Powell, disgybl o'r chweched dosbarth yn llawn haeddu'r gadair, (a luniwyd gan ddisgybl o ddosbarth 4, sef Iain McCormack) a llywiwyd y seremoni urddasol gan Mrs Bethan Roberts.

Daeth yr eisteddfod i ben gyda chystadleuaeth Corau'r Llysoedd a'u datganiadau clodfawr o dan law eu harweinyddion ifainc yw glo teilwng i holl ferw'r cystadlu.




ROLAND POWELL – Enillydd y Gadair.

Torrwyd monopoli Llys Dewi ar y darian eleni gyda buddugoliaeth haeddiannol Teilo, a phrofi unwaith eto mai marciau teilyngdod yr aelodau unigol yn y cystadleuthau gwaith cartref sy'n sicrhau llwyddiant yn y diwedd. Ychydig gafodd y cyfle i droedio llwyfan yr Eisteddfod, ond fe gyfrannodd cannoedd i'w Llysoedd trwy wneud y 'pethau bychain' yn ôl eu talentau arbennig – neges bwrpasol o gofio mai dathlu Gwyl Ddewi oedd y 'steddfod.

Y beirniaid eleni oedd
Cerdd: Mr. Gerallt Evans.
Adrodd: Miss Hannah Roberts.
Drama: Miss Rhiannon Rees.
Dawnsio Gwerin: Mrs Diane Bartholomew.



# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 41



AR DRAWS:

1. Saethwyd myn a pheri anghysur iddo. (10)
6. Cwrs. (4)
9. Afon Llanelli mewn diwyg goleuedig. (10)
10. Mae mwy nag un person cyntaf. (4)
13. Pan fo'r nen yn clirio mae'n dwyn golau i gwm dwl. (7)
15. Yr ymateb? Daw â thi i ddull arall. (6)
16. Ymadrodd nad ydi o yn iaith y De. (3,2,1)
17. Gweler 4 i lawr.
18. Y lloer mewn annhrefn a diwedd y byd wrth law, a'r cyfan yn rhynllyd, ddigysur. (6)
20. Mynd ar long i gael eich prydau. (6)
21. Mae'r tai aflêr a'r dref anniben yn dangos mai dihid ydynt. (7)
22. Wrth ddewis afon i bysgota, dylech weld yn glir yr hyn sydd ar y gwaelod. (4)
25. Tybed faint o Saeson a ŵyr mai hyperbole yw hwn? (10)
26. Duw y duwiau o Lychlyn yn troi ac yn sylwi. (4)
27. Dan anfantais pan ymhoelodd drol ei fini. (10)

I LAWR:

1. Modd i ennill cadair. (4)
2. Cael budd o argoel wag. (4)
3. Pan fydd lluchedan yn taro gwaelod y llefrith, mae'n achosi pla drwg. (6)
4. (a 17 ar draws). Gwall teipyddol a alwodd hon yn "Slam Fawr"!! (1,8,4,2,6,4'1,4)
5. Cywir. (2,4)
7. Rholio mewn llaid. (10)
8. H.T. yn smyglo tê yn drwsgl ac yn cael canlyniad ystormus. (10)
11. Moddion i chwynnu. (10)
12. Pobol sydd bob amser yn iawn. (10)
13. Ar ôl cael ei le ymhlith y diwyd, fe'i diddymwyd. (7)
14. Gweithwyr digrefft. (7)
19. "... a'ch llafur am yr hyn nid yw yn ———." (Eseia) (6)
20. "Ac ni bydd eidion yn ei ———." (Habacuc) (6)
23. Blodyn Fflandrys. (4)
24. Dewis y tugel. (4)

Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto. Ysgrifennwch eich enw, neu ffugenw, a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon erbyn Ebrill 25ain at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.

DATRYSIAD RHIF 40.

AR DRAWS: 1. ANFOESGARWCH; 6. UWD; 8. ANWIR; 10. CYDGERDDWN; 11. NEB; 12. ABATY; 13. MABINOGI; 16. GWYRDDACH; 17. WHAD; 18. ADDAS; 19. DIHAREB; 21. CANIEDYDD; 23. NEIDR; 26. BIG; 27. MAFON DUON; 28. ORIAD; 28a. RIO; 29. GOL; 30. ANLLYTHRENNOG.

I LAWR: 1. ATAFAELWYD; 2. a 25. FE WNAWN ARIAN FEL Y MWG; 3. EURBYSG; 4. AWYRA; 5. CHWENNYCH; 6. URDD Y GRADDEDIGION; 7. DENU; 9. IET; 13. MWYNHAD; 14. BYDDARODD; 15. CYSEGREDIG; 19. DAIONI A; 20. BEN BORE; 22. YFORY; 24. EIRIN; 25. Gweler 2 i lawr.

CYSTADLEUAETH RHIF 40.

Daeth naw datrysiad cymen a chywir i law. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo K. Davies, 24, Greenfield Avenue, Canton. Fe fydd yn derbyn y tocyn llyfrau Cymraeg gyda hyn. Y datryswyr cywir eraill oedd:- Robin Dewi Nantglyn, Yr Eglwys Newydd; S.M. Morgan, Pentrebaen, Mrs Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; John Hughes, Llanishen; B.H. Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; T.J., Y Creigiau; a B.T. Cyncoed.